

COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

REPORT TO: THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH

**SUBJECT: PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 16 MEHEFIN 2021
DYDD MERCHER, 16 MEHEFIN 2021**

REPORT OF:

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

Michelle Morris (Swyddog)
Damien McCann (Swyddog)
Richard Crook (Swyddog)
Rhian Hayden (Swyddog)
Andrea Jones (Swyddog)
Michelle Hicks (Secretary)
Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu)
Pob Cynghorydd (Monitro)
Louise Bishop (Swyddog)
Sean Scannell (Swyddog)
Liz Thomas (Swyddog)
Gemma Wasley (Swyddog)
Lynn Phillips (Swyddog)
Bernadette Elias (Swyddog)
Andrea Prosser (Swyddog)

ITEM	SUBJECT	ACTION
No. 1	<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>	

	Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw ceisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	
No. 2	<u>YMDDIHEURIADAU</u> Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Prif Swyddog Adnoddau.	
No. 3	<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u> Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant a goddefebau.	
	<u>COFNODION</u>	
No. 4	<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u> Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021. PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.	
No. 5	<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u> Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021. PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.	
	<u>MATERION CYFFREDINOL</u>	
No. 6	<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u> PENDERFYNWYD y caiff holl gyfarfodydd y dyfodol eu cynnal am 10.00am.	
No. 7	<u>CYNADLEDDAU, CYRSIAU, DIGWYDDIADAU A GWAHODDIADAU</u> Dywedodd yr Arweinydd y derbyniwyd y gwahoddiad dilynol:- Digwyddiad Darlledu y Fyddin – 9 Mehefin 2021 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynghorydd Brian Thomas,	

	Hyrwyddwr Lluoedd Arfog i fynychu.	
	<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>	
No. 8	<u>BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG 2021-22 Y PWYLLGOR GWEITHREDU</u> Cafodd yr eitem hon ei gadael allan o'r agenda ac felly caiff ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. PENDERFYNWYD y dylid cyflwyno'r Blaenraglen Waith 2021-2022 y Pwyllgor Gweithredol i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf.	
No. 9	<u>GRANTIAU I SEFYDLIADAU</u>	





ABILITY TO VARY LIABILITIES IN CYCLES OF
LIFE


as
ris
io
n
is

- | | |
|--|---|
| | <div data-bbox="911 190 1596 327" data-label="List-Group"><ul style="list-style-type: none">22. PTFA Ysgol Gynradd Gymunedol T23. N2T Youth24. Clwb Operatig Glynebwy</div> |
|--|---|

TREDEGAR

Ward Sirhywi – Cynghorydd B. Thomas

- 1. Cymdeithas Operatig Tredegar



	<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD</u>	
No. 10	<u>MABWYSIADU STRATEGAETH SBWRIEL A THIPIO ANGHYFREITHLON</u> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm – Golwg Strydoedd.</p> <p>Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i fabwysiadu Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon y Cyngor ar gyfer 2021-2026. Croesawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr adroddiad gan y gwnaed gwelliant sylweddol i ostwng sbwriel ar strydoedd ar draws y Fwrdeistref a byddai'r Strategaeth yn cryfhau symud ymlaen gyda'r gwaith hwn dros y 5 mlynedd nesaf.</p> <p>Croesawodd yr Aelod Gweithredol – yr Amgylchedd yr adroddiad .gyda phawb yn uniaethu gyda'r problemau a nodwyd yn adroddiad gan y derbynnir cwynion niferus bob dydd am sbwriel a thipio anghyfreithlon. Roedd yn gynllun newydd a Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu strategaeth ar Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon sy'n tynnu nifer o feysydd ynghyd. Cydnabuwyd y gwaith a wnaed hyd yma a gwaith ardderchog y llu o Hyrwyddwyr Sbwriel ar draws Blaenau Gwent.</p> <p>Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol fod y strategaeth yn cryfhau'r</p>	

ymrwymiad presennol a roddwyd gan y weinyddiaeth ar lanweithdra ein hardal a'r Fwrdeistref. Byddai'r strategaeth yn edrych ar wahanol ffyrdd i ddynodi'r achosion sylfaenol a chanfod beth fwy y gellid ei wneud. Nododd yr Aelod Gweithredol bwysigrwydd monitro cynnydd yn y dyfodol a nododd y cynllun gweithredu sy'n rhoi manylion y nodau hirdymor a thymor byr. Byddai'r Strategaeth yn parhau i esblygu ac mae'r Aelod Gweithredol yn edrych ymlaen at gael golwg ar adroddiadau cynnydd a allai fod a mewnbwn ar gyfer y rhanddeiliaid allweddol pwysig sy'n rhan o'r broses.

I gloi, dymunai'r Aelod Gweithredol ddiolch i Cadw Cymru'n Daclus am eu cefnogaeth a groesawyd a dywedodd y cafodd yr adroddiad hefyd ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu.

Croesawyd yr adroddiad hefyd gan yr Aelod Gweithredol – Datblygu Economaidd ac Adfywio a chytunodd ei fod yn adroddiad pwysig lle roedd gan Aelodau Etholedig, y Cyngor a'n hetholwyr gyfle i chwarae eu rhan.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon 2021-2026 Blaenau Gwent (Opswn 1).

No. 11

RHAGLEN GWAITH CYFALAF PRIFFYRDD 2021 – 2022

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn rhoi manylion tri maes yn nhermau gwaith priffyrdd. Mae'n rhoi diweddariad ar gynnydd rhaglen bresennol Gwaith Cyfalaf Priffyrdd 2017-2021, gwelliannau a wnaed dros y blynyddoedd ac yn nodi'r opsiynau o amgylch buddsoddiad 2021-22 yn rhwydwaith priffyrdd yr Awdurdod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd swm cyfalaf o £2.115m ei gynhyrchu o fenthyciad darbodus 20 mlynedd yn seiliedig ar gyfraniadau refeniw o £130k y flwyddyn. Amcangyfrifwyd fod gwerth amnewid crynswth proffesiynol y Rhwydwaith Priffyrdd yn £1.093 biliwn a dyma ased sylweddol fwyaf gwerthfawr yr Awdurdod. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad sy'n cynnwys y

dilynol:-

- Rhwydwaith
- Rhaglen Gwaith Cyfalaf Priffyrdd 2021-22 – Blaenoriaethau ac Opsiynau
- Rhaglen ychwanegol o Weithiau Priffyrdd a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru 2021/2022
- Refeniw Diogelwch Ffordd a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Cronfa Teithio Llesol

I gloi, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol at yr opsiynau ar gyfer argymhelliad a nodi'r opsiwn a ffafrir.

Croesawodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yr adroddiad a dywedodd fod hyn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y weinyddiaeth hon a ffurfio'r ymrwymiad cyfredol ar gyfer uwchraddio ffyrdd preswyl. Mae'r adroddiad yn dynodi'r gwelliannau a wnaed eisoes yn Rhwydwaith Priffyrdd yr Awdurdod, a chroesawyd hynny.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar ffyrdd preswyl, Ffyrdd Blaenoriaeth A a B a diogelwch priffordd (Opsion 2) fel sy'n dilyn:-

Ffyrdd Blaenoriaeth A a B

A4048 Gwaith adeiladu llawn A4048 Heathfield

A4046 Wyneb newydd ar Ffordd Osgoi Cwm

Gwaith Rheoli Traffig Diogelwch Priffyrdd

Gosod Rhwystr Diogelwch newydd ar A4281 Garnlydan

Gosod Rhwystr Diogelwch newydd ar yr A467 Abertyleri

Ffyrdd Preswyl: (16 cynllun – 1 ym mhob Ward)

Southend a Stryd Walter, Georgetown

Heol Mount Pleasant, Gogledd Glynebwy

Teras Institution, De Glynebwy

Teras Maes-y-Cynw, Llanhilledd

Heol Jiwbilî a Heol Graig, Six Bells

Stryd Powell a Stryd Fawr (adran), Abertyleri

Stryd Coroni, Blaenau

Stryd De a Stryd Henffordd, Beaufort

Cilgant Aneurin, Brynmawr

Stryd Brenin, Cwm

Teras Rheilffordd, Sirhywi

	<p>Lôn Stabl a Parkville, Tredegar Canol a Gorllewin Heol Ysgol, Rasa Waunheulog, Nantyglo Stryd Victoria, Cwmtylleri Cylchfan Rhyd y Blew, Badminton Wyneb newydd ar Stad Ddiwydiannol Blaenant</p>	
	<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>	
No. 12	<p><u>POLISI TREFNIADAETH YSGOLION (2021/24)</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.</p> <p>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn rhoi manylion yr adolygiad o'r Polisi Trefniadaeth Ysgolion (2021-24) a gofynnodd am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cynigid mabwysiadu'r polisi diwygiedig a'i weithredu o ddechrau blwyddyn academiaidd newydd 2021/22. Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach am yr adroddiad ac amlinellu blaenoriaethau allweddol am drefniadaeth ysgolion a'r broses cynllunio fel yr amlinellir yn yr adroddiad.</p> <p>Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg hefyd y cynigion sylweddol llwyddiannus am drefniadaeth ysgolion a rhoddodd drosolwg manwl o'r deilliannau a gyflawnwyd fel rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif hyd yma. Nodwyd y gwnaed cynnydd cadarn ac mae'r blaenoriaethau ar y llwybr ar gyfer 2021/2022.</p> <p>Croesawodd yr Aelod Gweithredol yr adroddiad sy'n amserol o gofio am effaith Covid-19. Nododd yr Aelod Gweithredol y diwygiadau i'r polisi a blaenoriaethau strategol fel a amlinellir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gywir wrth adlewyrchu cyfeiriad Addysg yn y dyfodol.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar y newidiadau a gynigir i Bolisi Trefniadaeth Ysgolion 2021 Blaenau Gwent (Opsiwn 1).</p>	
	<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>	

<p>No. 13</p>	<p><u>MONITRO PERFFORMIAD CHWARTEROL Y STRATEGAETH FASNACHOL</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Interim Masnachol.</p> <p>Nododd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n amlinellu adroddiad monitro perfformiad Chwarter 4 y Strategaeth Fasnachol. Cyflwynwyd yr adroddiad fel eitem fonitro, er ei bod yn dangos llawer iawn o waith da yn nhermau comisiynu strategol ar y ganolfan cyswllt a bod agweddau o'r ganolfan cyswllt a fyddai'n bwysig i Aelodau, yn neilltuoel o amgylch y gwasanaeth 'Allan o'r Tŷ', y Timau Ymateb Ardal sydd wedi gwneud llawer iawn o waith gwerthfawr iawn dros y cyfnod diwethaf ac yn wir y rhaglen ddigidol a fyddai'n hollbwysig wrth i'r Awdurdod barhau i symud ymlaen.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diweddariad cynnydd chwarter 4 ar y Strategaeth Fasnachol (Opswn 1).</p>	
<p>No. 14</p>	<p><u>STRATEGAETH CYFATHREBU CORFFORAETHOL – DIWEDDARIAD CHWARTEROL</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Interim Masnachol.</p> <p>Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr adroddiad sy'n rhoi manylion diweddariad Chwarter 4 y Strategaeth Cyfathrebu. Nododd yr Arweinydd fod yr adran Cyfathrebu yn dal i ganolbwyntio ar bandemig Covid-19 a theimlai fod gwaith y Tîm Cyfathrebu yn gwerthfawr yn ystod y pandemig i sicrhau fod pobl Blaenau Gwent yn derbyn gwybodaeth lawn.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diweddariad chwarter 4 (lonawr i Mawrth 2021) ar y Strategaeth Cyfathrebu (Opswn 1).</p>	
	<p><u>EITEMAU MONITRO – ADDYSG</u></p>	
<p>No. 15</p>	<p><u>CYFARWYDDIAETH ADDYSG – YMATEB I COVID-19</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.</p> <p>Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yr adroddiad a rhoi trosolwg o'r</p>	

ymateb presennol, o ymateb Addysg a hefyd Gorfforaethol, a roddwyd i gefnogi ysgolion yn ystod y pandemig. Mae'r adroddiad yn dangos y gweithgaredd ar gyfer tymhorau'r hydref a'r gwanwyn a dywedodd y byddai angen cynllunio effaith ymyriad o fwy na 12 mis ar gyfer dysgwyr yn y cyfnodau byr, canolig a hir i sicrhau datblygiad a chynnydd.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y Cyngor wedi sefydlu fframwaith adferiad corfforaethol y rhoddir ei fanylion yn Atodiad 2 yr adroddiad a byddai is-grŵp dan arweiniad y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn rhan allweddol o'r gwaith hwn. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol brif flaenoriaeth y Gyfarwyddiaeth Addysg yng nghynllun busnes EAS. Mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi ystyried Adolygiad Thematig Estyn yn flaenorol ac wedi rhoi trosolwg cadarnhaol o ymateb diogel y Cyngor wrth gefnogi ysgolion yr Awdurdod yn ystod y pandemig.

Roedd Aelod Gweithredol Addysg yn falch y cydnabuwyd fod Estyn, fel rhan o'r Adolygiad Thematig, wedi cydnabod ymateb corfforaethol cryf y Cyngor wrth gefnogi ein hysgolion yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Cytunodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a dywedodd yr Aelod Gweithredol, fel llywodraethwr ysgol leol, fod y gwaith ar draws y Cyngor a'r gefnogaeth ychwanegol i ysgolion ar gael yn rhagorol. Roedd y llywodraethwyr ar ben eu digon gan y ffordd yr oedd staff ar bob lefel wedi ymateb. Roedd yr holl lywodraethol yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed ar draws yr Awdurdod cyfan ac estynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn unol â hynny.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiw 1).

No. 16

HUNANARFARNU A CHYNLLUNIO BUSNES GWASANAETHAU ADDYSG BLAENAU GWENT

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod Gwasanaethau Addysg Blaenau Gwent, gyda'r pwyslais ar 'gymorth corfforaethol' yn parhau yn hollol ymroddedig i hunanadolygu a hunanarfarnu ac mae'r rhain yn sylfaenol wrth barhau i wella'r gwasanaethau a ddarparwn i ddysgwyr yn gyffredinol. Mae proses safonol ar gyfer a gafodd ei gwmpasu i'r gwaith dydd i ddydd, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gweithredol ac mae'r holl brosesau yn gydnaws gyda fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol Estyn.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol rai enghreifftiau o ardaloedd lle gwnaed

	<p>cynnydd da a lle mae angen mwy o welliannau fel y manylir yn yr adroddiad.</p> <p>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Addysg y nifer fawr o ardaloedd lle gwnaed cynnydd a bod hunanarfarnu yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd priodol ar gyfer datblygu.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1).</p>	
No. 17	<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>	
	<u>EITEMAU MONITRO - YR AMGYLCHEDD</u>	
No. 18	<p><u>TIR ELUSENNOL, CYN YSGOL GYMRAEG, STRYD Y BRENIN, BRYNMAWR</u></p> <p>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol, o bwysu a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.</p> <p>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra trafodir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debyg y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).</p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Stadau.</p> <p>Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol drosolwg o'r adroddiad ac amlinellodd y pwyntiau allweddol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y bu ymgysylltu gyda maes perthnasol Addysg.</p> <p>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys wybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1 a fanylir yn yr adroddiad.</p>	